Atodiad 1

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Cyfnod y Cynllun** |
| Medi 2022 – Awst 2032 |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: .................................................... **Dyddiad**: ....................

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Nodiadau i’ch cynorthwyo

**Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a’r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**

**Cyn cwblhau’r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Ran 2 o’r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**

**Mae’r rhan hon yn nodi’r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae’n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun [fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019]. Yn ogystal â’ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.**

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050.

Merthyr Tudful - #Shwmaergylch - man lle mae'r Gymraeg yn cael ei dathlu.

"Parhau i dyfu cyfleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gefnogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau yn y defnydd o'r Gymraeg fel eu bod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith lle bynnag y maent."

I gefnogi hyn, ein targed yw cynyddu canran y dysgwyr a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg o tua 14% (100 o ddysgwyr) - yn seiliedig ar ddata CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 2019/20 - i rhwng 22% a 26% (155-185 o ddysgwyr) erbyn 2032.

Ar hyn o bryd, mae yna 2 Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg gyda lle i 743 o ddysgwyr (13% o'r dysgwyr cynradd), gyda thrydedd "egin ysgol" yn agor gyda 9 disgybl meithrin ym mis Ebrill 2022. Roedd nifer y plant a dderbyniai addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2015-2020 yn amrywio o 711 i 781, sef 12.3% i 13.3% o boblogaeth yr ysgolion cynradd.

Roedd nifer y disgyblion sydd wedi trosglwyddo o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd rhwng 2015 a 2020 yn amrywio o 94.2% i 97.6%. O 2019, bu trosglwyddiad cynyddol yn ôl i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg [2019/20 – 5; 2020/21 – 9; 21/22 (hyd at Ebrill) – 9]. Mae hwn yn faes sydd angen ei archwilio ymhellach yn ystod oes y Cynllun hwn gan y bydd yn effeithio ar ganlyniadau TGAU.

At hynny, mae gan yr Awdurdod Lleol 2 ddarparwr addysg cofrestredig sydd â chapasiti ar gyfer 19 o ddysgwyr i gefnogi'r ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion, yn enwedig yn nhymor yr haf.

Mae Bloc yr Awdurdodau Lleol yn prynu 22 o leoedd sy'n cynnig Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â phrynu mewn lleoliadau eraill yn ôl y galw. Mae cynyddu capasiti'r ddarpariaeth ar gyfer Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg yn darged allweddol wrth ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol.

Rhwng 2015-2020, roedd nifer y cylchoedd meithrin yn amrywio o 5 i 10 lleoliad gyda nifer y plant oedd yn mynychu meithrinfa yn amrywio o 106 i 209. Roedd cyfraddau trosglwyddo'r plant o'r lleoliadau hyn i Addysg Cyfrwng Cymraeg yn amrywio o 57.1% i 79.3%. Mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei wella os yw'r Cyngor am gyrraedd y targed a osodwyd.

Roedd nifer y plant ym mhob Grŵp Ti a Fi yn amrywio o 3 i 18.

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg;
- gwella'r pontio o leoliadau cyfrwng Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar i addysg brif ffrwd;
- hwyluso'r defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ysgolion a'r gymuned ehangach a hyrwyddo hunaniaeth Cymru;
- gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- dathlu cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg ym mhob lleoliad; a
- datblygu cymorth ychwanegol i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi Cynlluniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful dros y 10 mlynedd nesaf i gynyddu a gwella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n "ddyheadol" gan fod y Cyngor yn cydnabod nad yw gwaith yn y maes hwn bob amser wedi bod yn flaenoriaeth o'r blaen.

Drwy gydol oes y Cynllun hwn a thu hwnt, ein nod yw gwneud Merthyr Tudful:

- yn ardal lle mae dilyniant o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn ysgol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynhelir, yn cael ei gefnogi'n llawn ac ar gael i bawb;
- yn ardal lle mae pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud;
- yn ardal lle mae gweithlu'r ysgol yn cael cyfle i ddatblygu eu cymhwysedd a'u hyder i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- yn ardal lle mae manteision dwyieithrwydd, yn wybyddol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn addysgol yn cael eu hyrwyddo ledled y gymuned;
- yn ardal lle mae dilyniant ieithyddol ar draws meysydd cwricwlaidd wrth drosglwyddo o addysg cyn ysgol i addysg gynradd, o addysg gynradd i addysg uwchradd ac o addysg uwchradd i addysg bellach neu gyflogaeth, yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu;
- yn ardal lle cefnogir hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg fel eu bod yn datblygu eu sgiliau i fedru parhau â'u haddysg drwy eu dewis iaith;
- yn ardal lle mae'r holl bartneriaid yn chwarae eu rhan i wella cyfleoedd a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r amgylchedd dysgu;
- yn ardal lle mae rhieni a'r teulu ehangach yn cael pob cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel y gallant gefnogi datblygiad iaith eu plant.

Bydd agor y drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dosbarth trochi i gefnogi hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Rhondda Cynon Taf (RhCT) i ystyried a fydd y ddarpariaeth drochi hon yn cefnogi dysgwyr o bob rhan o Ferthyr Tudful a Chwm Cynon.

Bydd y cynlluniau presennol ar gyfer Dosbarth Adnoddau Dysgu yn Ysgol Rhyd-y-Grug yn cefnogi dysgwyr o Ferthyr Tudful ond unwaith eto, mae yna gyfleoedd i ddatblygu'r ddarpariaeth hon ochr yn ochr â RhCT ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Cynon.

**CYSYLLTIAD Â PHOLISÏAU LLYWODRAETH CYMRU**

**CWRICWLWM I GYMRU**
Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd yn cychwyn wrth i ysgolion ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru lle mae rôl y Gymraeg yn agwedd allweddol. Ym Merthyr Tudful, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc, fel cyfrwng addysgu ac fel iaith ar gyfer cyfathrebu anffurfiol.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**
Ein nod yw creu, ar draws Bwrdeistref y Sir, gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

**CYMRAEG 2050: MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG (2017)**
Gan ddilyn themâu Cymraeg 2050 a'i raglen waith a gyhoeddwyd yn 2021, byddwn yn ystyried ein gwaith o dan bob thema – gan geisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu'r seilwaith a'r cyd-destun i'r rhain ddigwydd. Bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag uchelgeisiau Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor. Dros oes y CSCA, ein nod yw sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ac sydd â sgiliau yn y Gymraeg - dim ond trwy alluogi mwy o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd gwireddu miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar y Blynyddoedd Cynnar a theuluoedd oherwydd po gynharaf y bydd plentyn yn cael cyswllt â'r iaith, mwyaf oll y cyfle fydd gan y plentyn i ddod yn rhugl.

**CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY**
Bydd Rhaglen Fuddsoddi Merthyr Tudful yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn cefnogi'r dasg o ddatblygu amgylcheddau dysgu sy'n llwyddo i i weithredu strategaethau ar gyfer gwelliant a deilliannau addysgol gwell.

**DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A THRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018**
Un o nodau craidd y Ddeddf yw creu system ddwyieithog o gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yn ofynnol i wasanaethau ystyried a oes angen Cynllun Dysgu Ychwanegol (CDY) ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg; bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus, yn hytrach nag yn benderfyniad untro. Os byddant yn gwneud hynny, rhaid cofnodi hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a rhaid cymryd "pob cam rhesymol" i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg. Mae mecanwaith wedi'i gynnwys yn y Ddeddf i ddileu trwy reoliadau'r prawf "pob cam rhesymol", fel bod y dyletswyddau i ddarparu CDY drwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn rhai absoliwt dros amser. Mae cyfres o ddyletswyddau strategol hefyd wedi'u hanelu at sbarduno cynnydd tuag at system ADY ddwyieithog. Wrth adolygu eu trefniadau ar gyfer ADY a'r graddau y mae'r trefniadau hynny'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd CDYiau a wneir yn Gymraeg. Os yw awdurdod lleol o'r farn nad yw'r trefniadau'n ddigonol, gan gynnwys argaeledd CDYiau yn Gymraeg, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. Wrth wneud hynny, dylai awdurdodau lleol gysylltu eu hadolygiad o CDYiau â dyletswyddau strategol ehangach gan

gynnwys y rhai o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddrafftio, ymgynghori ar, a chyhoeddi CSCA sy'n dangos sut y byddant yn anelu at gyflawni'r deilliannau a'r targedau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardal, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag ADY.

**CYSYLLTIAD Â CHYNLLUNIAU ERAILL Y CYNGOR**

**STRATEGAETH CODI DYHEADAU CODI SAFONAU**
Y Strategaeth hon yw'r sbardun allweddol ar gyfer gwella addysg ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mae angen ystyried ei huchelgais ochr yn ochr â rhai'r CSCA. Mae gan y Strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau thema gyffredinol o Bartneriaeth a Chydweithrediad ac mae'n datgan bod gan BOB partner rôl allweddol i'w chwarae o ran galluogi ein pobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain y tu hwnt i addysg statudol wrth iddynt symud i fod yn oedolion ac yn ddinasyddion gwybodus. Bydd creu'r bartneriaeth hon fel thema annatod i'r strategaeth gyffredinol, yn sicrhau gwell cydlyniant a pherchnogaeth gyfunol o ddeilliannau. Bydd y dyhead hwn hefyd yn allweddol i lwyddiant y CSCA (a'r SIG).

**YR ECONOMI**
Mae tyfu'r economi ym Merthyr Tudful yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor a'i bartneriaid ehangach. Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at brofiad gwaith a phrentisiaethau drwy'r Gymraeg, a thrwy uchelgeisiau ein SIG, byddwn yn sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ar draws yr economi yn y Fwrdeistref Sirol.

**Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**
Rhaid ystyried unrhyw ehangu lleoliadau addysg ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor. Mae'r CDLl presennol yn rhedeg tan 2031 ac mae'n ceisio sicrhau 2,250 o anheddau ychwanegol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cyfleusterau addysgol ychwanegol wrth i ddatblygiadau tai newydd gael eu hadeiladu.

**STRATEGAETH IAITH GYMRAEG**
Mae uchelgeisiau'r CSCA yn elfen sylfaenol o Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'r ddwy ddogfen yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd ac mae gan y cynlluniau gweithredu sy'n eistedd y tu ôl iddynt ddiben deuol sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni'r SIG a'r CSCA.

Mae'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful yn golygu bod mwy o'n plant a'n pobl ifanc yn cael y cyfle i ddod yn oedolion dwyieithog hyderus. Dylai pob plentyn, p'un a ydynt yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ai peidio, adael yr ysgol gyda sgiliau Cymraeg. Bydd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cydredeg a bydd is-grwpiau'n gweithio ochr yn ochr â'r ddau gynllun.

Mae'r SIG a'r CSCA yn strategaethau ar gyfer Merthyr Tudful yn ei chyfanrwydd, nid ar gyfer unrhyw un sefydliad. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol a wynebir gan bob awdurdod lleol yn golygu y bydd cyflawni deilliannau'r SIG hon yn heriol, ond

mae hefyd yn cynnig cyfleoedd gwych a sylfeini cadarn i greu partneriaethau newydd a chryfach, sy'n helpu'r Gymraeg i ffynnu ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Drwy'r SIG mae disgwyliad clir i'r holl staff gynyddu eu lefelau Cymraeg ar draws oes y Cynllun.

## FFORWM ADDYSG GYMRAEG (Y FFORWM)

### CEFNDIR

Sefydlwyd y Fforwm er mwyn darparu cyfleuster i fonitro CSCA'r Awdurdod, sy'n manylu ar sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn anelu at gyflawni deilliannau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC). Mae'n bwydo i mewn i SIG y Cyngor a hefyd Cynllun Gweithredu #Shwmaergylch.

### CYD-DESTUN POLISI

Mae'r SACC yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd gynlluniedig i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Adlewyrchir hyn yn SIG y Cyngor. Y nod yw hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae'r Fforwm yn gyfrwng allweddol i greu system gynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a amlinellir yn y CSCA.

Mae'r CSCA yn darparu'r modd i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y SACC drwy:

- sicrhau bod pob cam o broses addysg awdurdodau lleol yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg cyfrwng Cymraeg;
- ymestyn darpariaeth lle nodir angen ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau bod gwasanaethau cymorth iaith Gymraeg a chymorth cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu ar sail Consortia;
- gwella safonau ac ymestyn y defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc,
- nodi ffyrdd o ymestyn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y gymuned;
- dangos cynnydd yn erbyn y targedau penodol yn y SACC; a
- chyfrannu at gyflawni targedau cenedlaethol sydd wedi'u hymgorffori yn y SACC.

### AMCANION Y FFORWM

Amcanion y Fforwm yw sicrhau bod y Cyngor, o fewn y CSCA:

- yn cyfrannu at ddatblygu CSCA yr Awdurdod;
- yn adlewyrchu nodau'r SACC;
- yn dangos cynnydd clir tuag at gyrraedd targedau'r SACC;
- yn dangos atebolrwydd am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg Gymraeg; ac
- yn cydnabod ac yn cefnogi'r dasg o rannu arferion da.

**DATA IAITH**

Yng Nghyfrifiad 2011, nifer y siaradwyr Cymraeg oedd 5,532 neu 8.9% (bydd yn cael ei ddiweddaru cyn cyhoeddi hyn).

Yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 31 Rhagfyr 2020

- nifer y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 12,600 neu 21.7%;
- gallai 19.8% o'r boblogaeth ddarllen Cymraeg;
- gallai 18.2% ysgrifennu Cymraeg;
- gallai 23.9% ddeall Cymraeg llafar; ac
- amlder nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Merthyr yn ddyddiol oedd 8.1%.

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r camau gweithredu yn erbyn pob amcan. Ceir rhagor o wybodaeth yn y cydgynllun gweithredu yn Atodiad 1.

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Ble rydym ni nawr?**

Yn 2021/22, mae 88 (12.9%) o blant meithrin yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel y gwelir o’r tabl isod, mae nifer y cylchoedd meithrin a’r plant sy’n eu mynychu wedi gostwng; fodd bynnag, mae’r pontio o’r Cylch Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg wedi parhau’n sefydlog. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan rieni yn awgrymu bod hyn oherwydd diffyg darpariaeth feithrin uniongyrchol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, diffyg cysylltiadau pontio ag ysgolion, ac agosrwydd y cylchoedd i’r ysgolion eu hunain.

Dyma’r cyfraddau data cyffredinol ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf:-

| ***Blwyddyn ysgol*** | ***Nifer y cylchoedd meithrin*** | ***Y nifer sy’n mynychu’r cylchoedd meithrin*** | ***Y nifer sy’n pontio o’r cylch i ysgol*** | ***Ysgol Gymraeg*** | ***%*** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2016-17** | 11 | 175 | 65 | 40 | 61.54% |
| **2017-18** | 5 | 163 | 83 | 56 | 67.47% |
| **2018-19** | 6 | 151 | 87 | 69 | 79.31% |
| **2019-2020*** | 5 | 106 | 56 | 32 | 57.14% |
| **2020-2021** | 5 | 132 | 83 | 68 | 81.93% |

Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cysylltiadau agosach ag ysgolion cynradd ac mae Darparwr Addysg Cyfrwng Cymraeg Gofrestredig ychwanegol yn Ne’r Fwrdeistref Sirol wedi’i sefydlu i helpu gyda phroblem y capasiti, yn enwedig yn Nhymor yr Haf. At hynny, bydd agor y drydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant sy’n codi’n 3 oed ym mis Ebrill 2022 yn mynd peth o’r ffordd i fynd i’r afael â’r mater hwn yng Ngogledd a Chanol y Fwrdeistref Sirol.

Gan ddechrau yn 2018, mae Cymraeg i Blant wedi cynnal sesiynau ar gyfer rhieni. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r rhain wedi symud ar-lein ac wedi’u darparu ar draws Merthyr Tudful a Blaenau Gwent. Ar gyfer 2020/21, dim ond ffigurau cyfunedig ar gyfer y ddwy ardal sydd ar gael.
2018-2019 – Merthyr – cynhaliwyd 54 o grwpiau – fe’u mynychwyd gan 329 o rieni
2019-2020 – Merthyr – cynhaliwyd 74 o grwpiau – fe’u mynychwyd gan 403 o rieni
2020-2021 – Merthyr a Blaenau Gwent – 195 o grwpiau ar-lein – fe’u mynychwyd gan 283 o rieni
2021-2022 – Merthyr – cynhaliwyd 75 o grwpiau – fe’u mynychwyd gan 473 o rieni

| |
|---|
| Roedd 5 Grŵp Ti a Fi ar draws y Fwrdeistref Sirol yn 2020/21. Roedd presenoldeb cyfartalog y rhain yn amrywio o 3 i 18 a'r grŵp yn Trago oedd â'r presenoldeb gorau. Roedd un o'r grwpiau yng Ngurnos yn rhedeg i'w lawn gapasiti (10) am y rhan fwyaf o'i sesiynau.<br><br>Ar hyn o bryd, mae gan Dechrau'n Deg 22 o leoedd cyfrwng Cymraeg wedi'u hariannu ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod yn rhaid i hyn gynyddu'n sylweddol i gyrraedd targedau'r Cynllun hwn.<br><br>Mae llyfryn y Cyngor sef "Bod yn Ddwyieithog", wedi'i adnewyddu ac mae'r animeiddiad sy'n cyd-fynd ag ef wedi dechrau cael ei ddefnyddio i hyrwyddo cyfleoedd addysgol Cymraeg ymhellach. |
| **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?** |
| Byddwn:<br>• yn gweithio'n frwd i greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol;<br>• yn cynyddu nifer y lleoedd o fewn y Blynyddoedd Cynnar sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol i roi pob cyfle i rieni ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg;<br>▪ Bydd y cynllun i gyflwyno darpariaeth Dechrau'n Deg yn gweld o leiaf 22 lle ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros 2 flynedd gyntaf y Cynllun hwn (cynnydd o 100%).<br>▪ Erbyn diwedd y 5 mlynedd cyntaf, bydd hyn yn cynyddu i o leiaf 90 o leoedd.<br>• yn cynyddu'r ddarpariaeth bresennol o 3.5 dosbarth mynediad i 6 dosbarth mynediad yn ystod oes y Cynllun hwn;<br>▪ Erbyn 2027, bydd 2 ddosbarth mynediad mewn tair ysgol ar gyfer plant oed meithrin.<br>▪ Ym Medi 2022, bydd Dosbarth Meithrin yn agor yn hen Ysgol Feithrin y Gurnos.<br>▪ Ym Medi 2024, bydd ysgol newydd yn agor gyda Dosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, a Blwyddyn 1.<br>▪ Ym Medi 2024, bydd capasiti ychwanegol yn agor yn Ysgol Rhyd-y-Grug.<br>• yn gweithio gyda darparwyr cyn ysgol a gofal plant i gynyddu nifer y teuluoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg drwy hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog;<br>• yn cynnal ymgyrch farchnata gyda'r holl bartneriaid dros oes y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan ddefnyddio'r llyfryn Bod yn Ddwyieithog a deunydd hyrwyddo arall;<br>• yn defnyddio data Mudiad Meithrin i sicrhau bod plant sy'n derbyn darpariaeth Blynyddoedd Cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael pob cyfle i drosglwyddo i leoliad ysgol cyfrwng Cymraeg;<br>▪ Creu cysylltiadau amlwg ag ysgolion a chylchoedd meithrin.<br>▪ Pob ysgol i fod yn gysylltiedig ag o leiaf tair erbyn diwedd y Cynllun hwn.<br>▪ Cefnogi pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu cynlluniau pontio â chylchoedd cyswllt.<br>▪ Cydweithio gyda Mudiad Meithrin i ddatblygu deunydd pontio ar gyfer rhieni, cylchoedd ac ysgolion i'w ddefnyddio gyda'u plant. |

- yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i gynyddu nifer y Cylchoedd Meithrin i dri o leiaf;
  - Medi 2023 - agor Cylch Meithrin yng nghanol y Fwrdeistref Sirol.
  - Medi 2024 - agor Cylch Meithrin pellach yng nghanol y Fwrdeistref Sirol.
  - Medi 2025 - gweithio gyda'r Mudiad Meithrin i nodi lle priodol ar gyfer Cylch newydd er mwyn sicrhau darpariaeth fwy cyfartal ar gyfer y Fwrdeistref.
- yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i gynyddu nifer y cylchoedd Ti a Fi i wyth o leiaf:
  - Medi 2022 - datblygu cynllun i gynyddu nifer y Grwpiau Ti a Fi.
  - Ebrill 2023 - agor Grŵp Ti a Fi ychwanegol.
  - Ebrill 2024 - agor Grŵp Ti a Fi pellach.
  - Ebrill 2025 - agor Grŵp Ti a Fi pellach.
- yn cynyddu nifer y Darparwyr Addysg Cofrestredig (DAC) sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i ddarparu ar gyfer dalgylchoedd y tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.
  - Medi 2026 - DAC cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi'i gymeradwyo.
- yn sicrhau bod yr holl leoedd meithrin yn llawn-amser gan wneud yn siŵr bod cludiant ar gael i bawb;
- yn ystyried pa ysgolion allai symud ar hyd y model categoreiddio a bennwyd yn derfynol gan Lywodraeth Cymru;
- yn datblygu model Cymraeg Campus/Siarter Iaith gyda CCD a'r Mudiad Meithrin ar gyfer pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar;
  - Haf 2022 – peilot.
  - Medi 2022 – cyflwyno i bob lleoliad.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Erbyn diwedd y Cynllun hwn, bydd digon o ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer pob dysgwr sy'n cychwyn ar eu haddysg cyfrwng Cymraeg – 180 o leoedd.

Sefydlir 3 x ysgol cyfrwng Cymraeg â 2 dosbarth mynediad gyda lle i 180 o ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn.

Ar draws y Fwrdeistref Sirol, bydd lle i'r holl ddysgwyr hyn fynychu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar o ansawdd uchel i gefnogi'u datblygiad iaith.

Bydd pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar wedi'u dyfarnu â Safon Aur Cymraeg Campus y Siarter Iaith.

Y nod yw i 2 ysgol symud ar hyd y model categoreiddio; fodd bynnag, gyda dim ond 20 ysgol gynradd mae hwn yn darged uchelgeisiol.

**Data Allweddol**

| Niferoedd a % y plant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 98 | 13.8% | 108 | 15.2% | 118 | 16.6% | 128 | 18.1% | 138 | 19.5% |

| 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 148 | 20.9% | 155 | 21.9% | 165 | 23.3% | 175 | 24.7% | 185 | 26.1% |

## Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Ble rydym ni nawr?**

Yn 2021/22, mae 85 (11.63%) o ddisgyblion y Dosbarth Derbyn yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, o fewn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg, mae 100 o leoedd ar gael i ddysgwyr y Dosbarth Derbyn. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r pwysau ar Ysgol Rhyd-y-Grug wedi arwain at yr angen i ychwanegu 20 lle arall i gapasiti'r ysgol honno o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r niferoedd wedi bod yn gymharol sefydlog o fewn yr ysgolion gyda'u lleoedd gwag yn amrywio.

| | Nifer ar y Gofrestr (gan gynnwys y Dosbarth Meithrin) | Capasiti (gan gynnwys y Dosbarth Meithrin) | Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Santes Tudful | 470 | 456 | -14 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 265 | 309 | 44 |
| 2017 cyfanswm llawn-amser | 735 | | |
| Ysgol Santes Tudful | 480 | 485 | 5 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 282 | 309 | 27 |
| 2018 cyfanswm llawn-amser | 762 | | |
| Ysgol Santes Tudful | 488 | 485 | -3 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 295 | 309 | 14 |
| 2019 cyfanswm llawn-amser | 783 | | |
| Ysgol Santes Tudful | 479 | 486 | 7 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 302 | 334 | 32 |
| 2020 cyfanswm llawn-amser | 781 | | |
| Ysgol Santes Tudful | 471 | 478 | 7 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 294 | 334 | 40 |
| 2021 cyfanswm yr holl ddisgyblion | 765 | | |
| Ysgol Santes Tudful | 451 | 478 | 27 |
| Ysgol Rhyd-y-Grug | 303 | 334 | 31 |
| 2022 cyfanswm yr holl ddisgyblion | 754 | | |

Cyn y pandemig, roedd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r nifer fechan iawn o blant a drosglwyddai'n hwyr i addysg cyfrwng Cymraeg, trwy gynnig swm bach o arian ychwanegol.

| |
|---|
| Yn 2021/22, sicrhaodd yr Awdurdod Lleol £84,000 o Gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi rhaglenni trochi ac mae hyn wedi bod yn fuddiol i'r ddwy ysgol wrth i blant o gartrefi Saesneg eu hiaith yn bennaf, ddychwelyd i addysg cyfrwng Cymraeg. |
| **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?** |
| O fewn tair blynedd cyntaf y Cynllun hwn, byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gysylltu â'r adnoddau sydd ar gael gan y consortiwm addysg lleol.<br>• Ionawr 2022 – peilot gweithgareddau trochi ar draws Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd-y-Grug (a ariennir gan Lywodraeth Cymru).<br>• Ebrill 2022 – datblygu gweithgareddau trochi ymhellach gyda'r ddwy ysgol.<br>• Ebrill 2022 – parhau i weithio gyda CCD i ddatblygu gallu'r staff i ddarparu gweithgareddau trochi.<br>• 2023/24 – datblygu dogfen bolisi trosfwaol ar gyfer hwyrddyfodiaid a fydd o gymorth i ysgolion, rhieni a gofalwyr.<br>• Medi 2024 – dosbarth trochi yn agor yn y drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg.<br>• 2024/25 – ystyried agor y dosbarth trochi i ddysgwyr o Gwm Cynon, RhCT.<br><br>Mae datblygu gweithgareddau trochi yn allweddol os yw'r ALl i gyrraedd y Targed Uchaf a osodwyd gan LlC.<br>• Medi 2025 – bydd Meithrinfa â 2 Ddosbarth Mynediad yn Rhyd-y-Grug yn sicrhau y bydd lle i 120 o ddysgwyr Bl1 erbyn Medi 2027.<br>• Medi 2024 – bydd trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ei phlant Bl 1 cyntaf.<br>    o Er mwyn cyrraedd pen isaf y targed erbyn diwedd y Cynllun, mae angen i hwn fod yn ddosbarth mynediad llawn.<br>    o Er mwyn cyrraedd pen uchaf y targed erbyn diwedd y Cynllun, mae angen i hwn ddatblygu i fod yn ddarpariaeth ac iddi ddau ddosbarth mynediad.<br><br>Bydd cefnogaeth i rieni di-Gymraeg yn cael ei datblygu gyda'r ysgolion, Dysgu fel Teulu ac Ysgol Rhydywaun i sicrhau bod rhieni'n hyderus wrth gefnogi'u plant i ddal ati o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddwn yn parhau i hyrwyddo dwyieithrwydd trwy'r llyfryn Bod yn Ddwyieithog a'r animeiddiad sy'n cyd-fynd ag ef. |
| **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
| • Ar draws y Fwrdeistref Sirol, bydd chwe Dosbarth Derbyn o hyd at 30 o blant yr un a fydd yn golygu y bydd yr ALl ar ben uchaf y targed a osodwyd gan LlC.<br>• Bydd y drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'i chwblhau ac yn llawn.<br>• Bydd pob ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael eu cydnabod fel ysgolion rhagorol sy'n darparu profiad dysgu o ansawdd uchel i bob disgybl er mwyn denu rhieni i'r sector cyfrwng Cymraeg. |
| **Data Allweddol** |

| Niferoedd a % y plant 5 oed sy n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 88 | 12.9% | 98 | 13.6% | 108 | 15.0% | 118 | 16.4% | 128 | 17.8% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 138 | 19.2% | 148 | 20.6% | 155 | 21.6% | 165 | 23.0% | 175 | 24.3% |

## Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Ble rydym ni nawr?**

Trosglwyddodd 80/82 o ddisgyblion (97.6%) o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2020/21. Mae'r ddarpariaeth hon y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

Mae'r trosglwyddiad o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi parhau'n uchel dros y pum mlynedd diwethaf gyda dim ond ychydig iawn o ddysgwyr yn dewis peidio â pharhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n trosglwyddo'n ôl i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg dros y 3 blynedd diwethaf. Mae'n rhy fuan i weld a yw hyn o ganlyniad i'r pandemig. Byddwn yn monitro hyn yn agos ac yn gweithio gydag Ysgol Rhydywaun i sicrhau bod y niferoedd hyn yn fach iawn.

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Wrth i gapasiti'r ddarpariaeth gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu o fewn y Fwrdeistref Sirol, mae angen sicrhau bod digon o ddarpariaeth yn y sector uwchradd fel y gall dysgwyr barhau â'u haddysg yn Gymraeg.

O fewn pum mlynedd cyntaf y Cynllun hwn, byddwn

- yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful;
- yn Ionawr 2022, yn ymgysylltu â RhCT o ran capasiti Rhydywaun i gymryd dysgwyr ychwanegol;
- ym Medi 2022, yn ystyried cymeradwyaeth yr aelodau i ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â darparu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol;
- yn Ebrill 2023, yn ystyried safle posibl ar gyfer Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yn unol â gofyniad yr aelodau.

Byddwn yn sicrhau bod y cyfraddau trosglwyddo i Ysgol Rhydywaun yn parhau o leiaf yr un mor uchel ag y maent ar hyn o bryd.

Byddwn yn gweithio gydag Ysgol Rhydywaun i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr Merthyr Tudful fel eu bod yn ymgymryd â phrofiad gwaith yn ysgolion y Fwrdeistref.

O fewn tair blynedd cyntaf y Cynllun hwn, byddwn:

- yn gweithio gyda'r Coleg ym Merthyr i gefnogi'r dasg o gyflawni'i Gynllun Gweithredu ar gyfer Darparu Addysg Bellach a Phrentisiaethau yn Gymraeg;
- yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Twf Economaidd i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol;

- yn cefnogi datblygiad ystod eang o gyfleoedd ar gyfer cyrsiau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg;
- yn sicrhau bod ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y Fwrdeistref Sirol yn rhoi cefnogaeth i leoli myfyrwyr gofal cymdeithasol;
- yn sicrhau bod ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn gweithio gyda'r Coleg ym Merthyr i ddatblygu llwybrau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr gofal cymdeithasol.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Erbyn 2032, bydd dysgwyr o'r drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd. Disgwylir i bob dysgwr drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd naill ai mewn ysgol newydd yn y Fwrdeistref Sirol neu i Ysgol Rhydywaun â chapasiti cynyddol.

Mae ystod eang o gyfleoedd Ôl-16 ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn Y Coleg ym Merthyr ac mae cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yno hefyd (gweler Deilliant 4).

**Data Allweddol**

| Niferoedd a % y dysgwyr sy n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 84 | 98.8% | 99 | 99% | 93 | 100% | 105 | 100% | 92 | 100% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 85 | 100% | 88 | 100% | 98 | 100% | 108 | 100% | 118 | 100% |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Nid oes gan Ferthyr Tudful unrhyw ysgolion â chweched dosbarth ac nid oes ganddi ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ychwaith, felly mae'r deilliant hwn yn canolbwyntio ar ehangu nifer y dysgwyr sy'n cymryd Cymraeg fel Ail Iaith ar gyfer TGAU.

Mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â'r Gymraeg ar lefel TGAU ym Merthyr Tudful wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf a bydd y Consortiwm Rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael pob cyfle i astudio am gymhwyster yn y Gymraeg.

Mae dysgwyr Merthyr Tudful sy'n mynychu Ysgol Rhydywaun yn astudio pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyrhaeddiad y disgyblion hyn ar ddiwedd CA4 yn cydymffurfio'n fras â'r rhai a addysgir mewn ysgolion ym Merthyr Tudful.

Astudiodd 496 (82.26%) o ddisgyblion TGAU Cymraeg Ail Iaith yn 20/21 gyda 97.6% o'r rhain yn ennill A*-G (70.9% A*-C).

Dros y 3 blynedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n trosglwyddo'n ôl i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg (19/20 – 5; 20/21 – 9; 21/22 hyd at Ebrill – 9). Bydd hyn yn effeithio ar ein targed o sicrhau bod pob dysgwr yn ennill cymhwyster asesedig yn y Gymraeg gan nad yw ein hysgolion uwchradd yn meddu ar y gallu i gynnig cymhwyster Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae'r Coleg ym Merthyr Tudful wedi ymrwymo i wella a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ôl-16 fel eu bod yn cynnal ac yn datblygu'u sgiliau Cymraeg ynghyd â'u gwybodaeth a'u profiad o'r iaith honno.

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn cynnig y ddarpariaeth ganlynol i ddysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16: Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith. Mae'r niferoedd sy'n astudio'r cymhwyster hwn wedi bod yn gymharol isel dros y tair blynedd diwethaf fel y dangosir isod. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud yn awr gydag ysgolion lleol i archwilio ffyrdd o ddenu ac annog mwy o ddysgwyr i astudio'r maes pwnc hwn.

| Cwrs | 2019 Cofrestrwyd | 2020 Cofrestrwyd | 2021 Cofrestrwyd |
|---|---|---|---|
| Safon UG Cymraeg Ail Iaith | 10 | 9 | 5 |

Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal gydag E-sgol a hefyd Ysgol Gyfun Rhydywaun ynglŷn â chynnig cymhwyster Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf a fyddai'n cynnig "llwybr cynnydd" i ddysgwyr sy'n dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg cyfagos.

Mae'r Coleg yn cynnig cyfle i ddysgwyr gwblhau eu Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hefyd yn darparu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg mewn meysydd sy'n flaenoriaeth i sector sgiliau allweddol y rhanbarth, gan gynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Coleg wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i benodi Cynorthwywyr Cymorth Dwyieithog llawn-amser i weithio yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Is-adrannau Iechyd a Gofal. Mae'r Cynorthwywyr Cymorth Dwyieithog wedi cefnogi tiwtoriaid cwrs i godi ymwybyddiaeth o sgiliau iaith Gymraeg ym meysydd blaenoriaeth y sectorau allweddol hyn, a chefnogi dysgwyr i astudio a chwblhau eu gwaith a'u haseiniadau yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r modiwlau allweddol y mae dysgwyr wedi'u hastudio hyd yma, yn cynnwys:

| | Cymraeg Gwaith – cwrs blasu 10 awr ar-lein<br><br>Nifer y dysgwyr | Agored - tuag at Gymdeithas Ddwyieithog<br><br>Nifer y dysgwyr | Prentis-Iaith (Modiwl y Coleg Cenedlaethol)<br><br>Nifer y dysgwyr |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyhoeddus | | 14 | 14 |
| Gofal Iechyd | 53 | 15 | 15 |
| Gofal Plant | 16 | 16 | |

Mae'r Coleg yn darparu ystod o gyfleoedd i ddysgwyr o bob rhan o'r sefydliad fel y gallant gynnal, datblygu a gwella'u sgiliau Cymraeg yn y maes derbyn. Mae sgiliau hanfodol yr iaith a'i hymadroddion, yn ogystal â hyder, yn rhan fawr o'r hyn a gynigir gan yr Uned newydd sbon sy'n ymwneud â Sgiliau Derbyn Lefel 1 Cymraeg, ac mae'n bodloni'r gyfarwyddeb a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i Rhaglen Recriwtio Staff ei hun. Mae senarios a chwarae rôl yn ganolog i'r broses ddysgu, ac mae un Grŵp Lefel 1 o fyfyrwyr Gwallt a Harddwch eisoes wedi dechrau gweithio tuag at y cymhwyster hwn, gyda dosbarth arall o ddysgwyr Lefel 3 ar fin dechrau yng Ngwanwyn 2022. Wrth symud ymlaen, mae'r Coleg yn bwriadu cyflwyno hyn i feysydd adrannol eraill, gan gynnwys Busnes a Chyfrifiadura.

Mae'r Coleg yn cynnig cyfle i ddysgwyr dderbyn cwricwlwm neu adnoddau dysgu a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, gall dysgwyr sy'n ailsefyll TGAU Mathemateg neu Saesneg dderbyn deunyddiau ac adnoddau cwrs, gan gynnwys canllawiau terminoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, a gallant hefyd dderbyn copi o'r papur arholiad Cymraeg i gyd-fynd â'u copi Saesneg.

| **Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?** |
|---|
| Byddwn:<br>• yn gweithio gydag ysgolion i gynyddu'r niferoedd sy'n sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith ac yn cynnal y lefelau uchel gydol oes y Cynllun;<br>• yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael er mwyn i staff mewn ysgolion uwchradd ddatblygu'u sgiliau addysgu Cymraeg;<br>• yn datblygu rhwydwaith dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol ym mis Medi 2022;<br>• yn ystyried ffyrdd o gefnogi dysgwyr sy'n gadael Ysgol Rhydywaun yn ystod Cyfnod Allweddol 3 i gyflawni cymhwyster yn y Gymraeg;<br>• yn datblygu llwybr sy'n sicrhau bod pob ysgol yn nodi'n gynnar y dysgwyr hynny sy'n dymuno parhau i ddysgu Cymraeg yn y chweched dosbarth gyda'r nodau canlynol:<br>    o cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch yn y Coleg ym Merthyr flwyddyn ar ôl blwyddyn;<br>    o darparu cyfleoedd i'r dysgwyr hyn ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br>• yn gweithio gyda'r Coleg ym Merthyr er mwyn nodi cyfleoedd i gynyddu llwybrau trwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• yn gweithio gyda'r Coleg ym Merthyr i ymgysylltu ag E-sgol er mwyn ehangu'r cymwysterau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• yn sicrhau bod Consortiwm Canolbarth y De, y Coleg ym Merthyr, Gyrfa Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cymryd rhan lawn mewn sicrhau a gwella'r modd y mae myfyrwyr ôl-16 yn camu ymlaen yn eu gyrfa drwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• yn dilyn arweiniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn sicrhau bod y Coleg ym Merthyr yn parhau i ganolbwyntio ar ymgorffori unedau dwyieithog llawn ym mhrif gymwysterau'r meysydd hynny o'r cwricwlwm dwyieithog a flaenoriaethir.<br>    o Yn ystod y 5 mlynedd cyntaf, bydd y ffocws ar ofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Coleg ym Merthyr yn cyflogi staff newydd (neu'n uwchsgilio'r staff presennol) i ddarparu unedau dwyieithog yn y tri maes cwricwlwm hyn. |

| **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
|---|
| Bydd pob dysgwr yn ennill cymhwyster yn y Gymraeg gyda niferoedd cynyddol yn parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg Ôl-16.<br><br>Mae gan y Coleg ym Merthyr Gynorthwyydd Cymorth Dwyieithog ar gyfer pob maes cwricwlwm. Bydd y Coleg hefyd yn cynnig opsiwn i ailsefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ochr yn ochr ag ystod o gymwysterau ôl-16 yn y Gymraeg. |
| **Data Allweddol** |

| Niferoedd a % y dysgwyr sy n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 564 | 90% | 672 | 95% | 661 | 100% | 594 | 100% | 731 | 100% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 – 2032 | |
| 749 | 100% | 724 | 100% | 731 | 100% | 775 | 100% | 701 | 100% |

## Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Ble rydym ni nawr?**

Ebrill 2022 – Gwobrau Siarter Iaith/Cymraeg Campus

| | |
|---|---|
| Siarter Iaith | 2/2 Gwobrau Arian |
| Cymraeg Campus | 6/22 Gwobrau Efydd – Ysgolion Cynradd |
| | 1/4 Gwobrau Aur – Ysgolion Uwchradd |

Mae pob ysgol ac eithrio un ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn y broses uchod.

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Byddwn:

- erbyn Ebrill 2022, yn datblygu presenoldeb penodol ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Addysg Gymraeg a digwyddiadau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith;
- yn hyrwyddo Cymraeg Campus ym mhob ysgol cyfrwng Saesneg ac yn defnyddio ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi datblygiad y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
  - Erbyn Gorffennaf 2023, bydd pob ysgol cyfrwng Saesneg wedi cyflawni o leiaf Gwobr Efydd.
  - Erbyn Gorffennaf 2027, bydd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith.
- yn datblygu Gwobr ar ddelw Cymraeg Campus ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar;
- yn datblygu Gwobrau ar ddelw Cymraeg Campus ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid;
- yn datblygu darpariaeth Ar-Ôl-Ysgol a Gwyliau ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg;
  - Yn ystod Haf 2022, bydd un ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig darpariaeth gwyliau am o leiaf 2 wythnos.
- yn cysylltu â'r Fforwm Sirol i hyrwyddo gweithgareddau o fewn y gymuned gydag ysgolion a rhieni;
- yn datblygu presenoldeb o blith partneriaid yn y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Gweithgareddau Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol;
  - **Yn ystod 2022/23** ar y cyd â Llesiant Merthyr a'r Urdd, byddwn yn sefydlu gweithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- yn sicrhau bod y bartneriaeth bresennol rhwng Gwasanaethau Ieuenctid a'r Fenter Iaith yn cael ei datblygu ymhellach.
  - **Medi 2022** – sefydlu Fforwm Ieuenctid (9-16) i gynnwys pobl ifanc o Ysgol Gyfun Rhydywaun, Ysgol Santes Tudful ac Ysgol Rhyd-y-grug i gefnogi'r

| |
|---|
| dasg o ddatblygu ymhellach y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigir i bobl ifanc.<br>• yn datblygu cynllun blynyddol o weithgareddau i bobl ifanc, a'u hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol;<br>• yn adeiladu ar lwyddiant Clwstwr Pen-y-dre ac mewn partneriaeth ag ysgolion, datblygu eisteddfodau clwstwr;<br>o **Mawrth 2022** – Clwstwr Cyfarthfa<br>o **Mawrth 2023** – Clwstwr Ffydd<br>o **Mawrth 2024** – Clwstwr Afon Taf<br>o **Mawrth 2025** – Eisteddfod y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg<br>• yn sefydlu cysylltiadau ehangach â'r Urdd;<br>o **Medi 2023** – mewn partneriaeth â Llesiant Merthyr, byddwn yn sicrhau cyllid ar gyfer Prentis yr Urdd i gefnogi datblygiad Chwaraeon;<br>• yn adeiladu ar lwyddiant y Diwrnod Shwmae yn 2021 ac yn cynllunio ac yn cyflwyno o leiaf dau ddigwyddiad partneriaeth ar draws y gymuned bob blwyddyn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. |
| **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
| **Pob** ysgol wedi cyflawni Gwobrau Aur y Siarter Iaith/Cymraeg Campus<br>**Pob** lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth Ieuenctid wedi cyflawni Statws Arian y wobr gyfatebol.<br>Digwyddiadau cymunedol ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi'u sefydlu i ddathlu'r iaith Gymraeg, gyda phob ysgol yn ymrwymo i gymryd rhan yn hynny. |

## Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) [yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018]

**Ble rydym ni nawr?**

Mae'r Ddeddf ALNET yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i ddysgwyr sydd angen Cynlluniau Dysgu Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a chlywyd sôn dros y 5 mlynedd diwethaf fod nifer o ddysgwyr wedi symud o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg cymorth ar gyfer anghenion ychwanegol. Rydym hefyd wedi gweld nifer fechan iawn o rieni yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg ar ôl mynychu Cylch Meithrin oherwydd anghenion ychwanegol eu plant. I gefnogi hyn, byddwn yn ceisio sicrhau cyllid gan y Cyngor i agor Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-Grug. Bydd y Ganolfan Adnoddau hon yn darparu ar gyfer hyd at 15 o ddysgwyr o'r tair ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ag ystod o anghenion cymhleth. Bydd Tîm ADY yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'i hyder yn ei ddefnydd o'r Gymraeg trwy hyfforddiant parhaus, a phan fydd cyfleoedd recriwtio'n codi byddant yn nodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol.

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Byddwn:

- yn agor Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Rhyd-y-Grug ym mis Medi 2023, ar gyfer hyd at 15 o blant sydd ag anghenion cymhleth;
- yn cysylltu â Thîm Cymorth Peripatetig y Gymraeg yn RhCT i sicrhau y gall dysgwyr sy'n defnyddio'r Ganolfan Adnoddau Dysgu drosglwyddo'n llwyddiannus i Ysgol Gyfun Rhydywaun ar gyfer eu haddysg uwchradd;
- yn sicrhau bod unrhyw ddysgwyr sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn trosglwyddo'n llwyddiannus i ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Rhydywaun;
- o fis Medi 2023, yn rhoi gwybodaeth i rieni am y cymorth a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg;
- o fewn pum mlynedd cyntaf y Cynllun hwn, yn cynyddu capasiti o fewn yr Ysgol Arbennig a'r Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n siarad Cymraeg;
- yn datblygu cyfle i staff sy'n siarad Cymraeg yng nghyfnod cynradd yr UCD i ymgymryd â gwaith allgymorth yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg pan fo angen;
- yn gweithio gyda RhCT i ystyried yr angen am ddosbarth arbenigol ar gyfer plant sydd ddim yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd;
- yn darparu rhaglen hyfforddi strwythuredig i uwchsgilio'r staff canolog o ran eu defnydd o'r Gymraeg.

| **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
|---|
| Erbyn 2032, bydd mynediad cyfartal i wasanaethau a darpariaethau arbenigol i blant a phobl ifanc ag ADY ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Bydd gwaith wedi'i wneud gyda RhCT i sicrhau bod y bobl ifanc hynny o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful yn gallu trosglwyddo'n llwyddiannus i ddarpariaeth uwchradd gyda'r cymorth priodol.<br><br>Bydd darpariaeth AHY trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael a gall pobl ifanc gael mynediad at gefnogaeth yn eu dewis iaith. |

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Data yn seiliedig ar Gyfrifiad Blynyddol Ysgolion 20/21

| Y Gweithlu | Dim Sgiliau | Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch | Hyfedr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon Cynradd Cyfrwng Cymraeg | | | | | | 35 |
| Athrawon Cynradd Cyfrwng Saesneg | | 70 | 75 | 40 | 10 | 15 |
| Athrawon Uwchradd Cyfrwng Saesneg | 80 | 45 | 15 | 10 | 5 | 15 |
| Cymorth Cynradd Cyfrwng Cymraeg | 5 | | | | | 40 |
| Cymorth Cynradd Cyfrwng Saesneg | 165 | 115 | 25 | 10 | 5 | |
| Cymorth Uwchradd Cyfrwng Saesneg | 80 | 15 | | | | |

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn:

- **o fewn dwy flynedd gyntaf y Cynllun hwn**, yn gweithio gyda CCD a Dysgu Morgannwg i ddatblygu rhaglen o gefnogaeth i staff ysgol sydd am wella lefel eu Cymraeg.
- **o fis Medi 2022 ymlaen**, yn cynyddu nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn galluogi'r drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg i ffynnu;
    - Gweithio gyda Sefydliadau Addysgu Cychwynnol a'r Coleg ym Merthyr/ Ysgol Rhydywaun i sicrhau staff o ansawdd uchel. Disgwylir cynnydd o 2 athro ac o leiaf 2 aelod o staff cymorth yn ystod pum mlynedd cyntaf y Cynllun ac yn y blynyddoedd i ddilyn, bydd angen o leiaf 2 athro.
    - Gan ddibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth dichonoldeb o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr uwchradd, efallai y bydd angen sicrhau staff uwchradd. Caiff y Cynllun ei adolygu yn unol â hynny unwaith y daw'r canlyniad i'r fei.
- **erbyn 2025**, yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pob aelod o staff cymorth y cynradd a'r uwchradd, yn meddu ar ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar lefel mynediad o leiaf;
- **erbyn 2025**, yn gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i sicrhau bod pob aelod o staff addysgu'r uwchradd yn meddu ar ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar lefel mynediad o leiaf;
- **erbyn 2027,** yn anelu at gael bron pob aelod o staff ysgolion cyfrwng Saesneg i wella'u Cymraeg o leiaf un lefel;
- yn gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i ddatblygu cyfleoedd y staff ôl-sabothol i ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol er mwyn iddynt gadw'r sgiliau a ddysgwyd;

- yn sicrhau bod yr holl staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mynediad at y dysgu proffesiynol priodol i gynyddu eu medrau gan gynnwys medrau arwain;
    - Datblygu perthynas â sefydliadau Addysg Gychwynnol i Athrawon i sicrhau bod Ysgolion Merthyr Tudful yn cael eu dewis fel man cyflogaeth.
    - Annog o leiaf un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ddod yn ysgol bartner ar gyfer HCA i ddatblygu'r perthnasoedd hynny ymhellach erbyn mis Medi 2023.
- **o fewn pum mlynedd cyntaf y Cynllun hwn**, yn datblygu darpariaeth yn yr ysgol sy'n cynnig hyfforddiant ar Gymraeg Cymorth Dysgu i
    - Staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
    - Staff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Byddwn wedi gweithio gyda CCD i annog o leiaf un aelod o staff ymhob ysgol i ymgymryd â'r Cyfnod Sabothol Iaith Gymraeg.

- Bydd gan bob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg o leiaf 2 athro ac un aelod o'r staff cymorth sy'n hyderus i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd gan bob ysgol uwchradd o leiaf 4 athro y tu allan i Adran y Gymraeg sy'n hyderus i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd pob ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u staffio'n llawn.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Bydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn asesu cynnydd yn erbyn y targedau o fewn y CSCA.

Disgwylir i'r Fforwm chwarae rhan hanfodol wrth gytuno a gweithredu CSCA yr Awdurdod.

**DULL**

Bydd y Prif Grŵp yn cwrdd bob tymor, gydag is-grwpiau hefyd yn cwrdd unwaith y tymor ac yn bwydo i mewn i'r Prif Grŵp. Dyma aelodau'r Prif Grŵp:

- Cynghorydd (Iaith Gymraeg)
- Cyfarwyddwr Addysg (CADEIRYDD)
- Pennaeth ADY a Chynhwysiant
- Pennaeth Cyflawniad a Llesiant
- Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd
- Pennaeth Dysgu Oedolion
- Pennaeth yn cynrychioli ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
- Pennaeth ysgol uwchradd fwydo cyfrwng Cymraeg
- Pennaeth yn cynrychioli ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- Cynrychiolwyr o gyrff llywodraethu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
- Cynrychiolwyr
    - Menter Iaith
    - Urdd Gobaith Cymru
    - RHAG
    - Mudiad Meithrin
    - Y Coleg, Merthyr Tudful
    - Cymraeg i Blant
    - Cymraeg i Oedolion
    - Consortiwm Rhanbarthol
    - Iechyd

Mae gwahoddiad sefydlog i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Grŵp yn rhinwedd ei swydd fel sylwedydd/ymgynghorydd (ond nid fel aelod llawn). Gall cadeiryddion is-grwpiau fod yn bresennol hefyd os nad ydynt yn aelodau o'r Prif Grŵp.

Gall dirprwyon fynychu.

Dyma'r is-grwpiau:

- Blynyddoedd Cynnar
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cwricwlwm
- Seilwaith
- Cymuned

Mae pob is-grŵp yn cynnwys swyddogion, penaethiaid a phartneriaid ehangach a byddant yn ystyried y modd y mae eu gwaith yn bodloni uchelgeisiau'r Cynllun hwn. Bydd y cydgynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg a'r Cynllun

Strategol Cymraeg mewn Addysg, ynghyd â'r Fforwm Addysg Gymraeg tymhorol, yn ystyried cynnydd yn erbyn y Cynllun hwn. At hynny, byddant yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig gan bartneriaid a swyddogion yn amlygu'u gwaith tuag at wireddu uchelgeisiau'r Cynllun.

Er nad yw'n cael ei gynrychioli yn y Prif Grŵp, bydd Grŵp Ieuenctid ychwanegol yn cael ei sefydlu i ystyried ac adrodd yn ôl ar yr hyn a wneir i gefnogi gweithgareddau Cymraeg ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned.

Cynhelir cynhadledd ddwywaith y flwyddyn ar y cyd ag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg, Fforwm Strategol y Gymraeg a'r Fforwm Sirol i ystyried cynnydd a chanfod ffyrdd o fwrw ymlaen ymhellach i gyrraedd targedau.

Mae platfform cyfryngau cymdeithasol newydd #Shwmaergylch yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i hyrwyddo deunyddiau addysg Gymraeg.